Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Is-ddeddfwriaeth: 8 Mawrth 2007

Cefndir

1. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr eitem ganlynol o is-ddeddfwriaeth, i'w gwneud o dan Reol Sefydlog 24, ddydd Mercher 17 Ionawr 2007. Cymerwyd cofnod gair-am-air a gellir ei weld ar Dudalen We'r Pwyllgor.

   Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007 *[ELLS-09-06]*

2. Rhoddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bapur cefndir esboniadol. Rhoddodd hefyd gopi o'r Gorchymyn drafft, y Memorandwm Esboniadol a'r Arfarniad Rheoliadol.

3. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau drafft rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2006 a chysylltwyd â 64 o randdeiliaid. Rhoddwyd y Rheoliadau drafft a'r dogfennau i'w canlyn ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Derbyniwyd tri ar ddeg o ymatebion. Roedd yr ymatebion ar y cyfan, yn gefnogol i'r newidiadau arfaethedig.

4. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r trefniadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau addysg uwch dynodedig yng Nghymru yn y flwyddyn academaidd 2007-08 a byddant yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr cymwys. Mae'r Rheoliadau'n dirymu Rheoliadau 2006 a'r Rheoliadau diwygio.

5. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Rheoliadau yn dechnegol o ran natur. Yr eithriad yw'r Grant Ffioedd Dysgu newydd o hyd at £1,845 a fydd ar gael i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n astudio cwrs addysg uwch mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru yn y blynyddoedd academaidd 2006-07 neu 2007-08 . Bydd y grant ffioedd dysgu ar gael waeth beth yw incwm y teulu ac fe'i telir yn uniongyrchol i'r man astudio.

6. Mae'r rheoliadau hefyd yn cyflwyno newidiadau technegol yn bennaf i'r:

   - Grant Gofal Plant
   - Y Grant i Fyfyrwyr sydd wedi Ymadael â Gofal (dilëwyd oherwydd darpariaeth amgen)
   - Graddfeydd Benthyg Tramor/Grant Teithio
   - Meini Prawf Cymhwysedd; ac
   - Mewn perthynas â Darparu Rhifau Yswiriant Gwladol.

Trafodaeth

7. Mewn trafodaeth, gofynnwyd am eglurhad ar y materion canlynol:

    - A fyddai'r dyletswyddau a roddwyd ar awdurdodau lleol gan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 yn debyg i'r ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol drwy'r Grant i Fyfyrwyr sydd wedi Ymadael â Gofal; a'r
    - Trefniadau o ran aelodau teulu ffoaduriaid.

8. Mewn ymateb, rhoddodd y Gweinidog a'r swyddogion yr wybodaeth ganlynol:

    - O dan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ymateb i anghenion pobl ifanc mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant ac i ddarparu cymorth i Fyfyrwyr sydd wedi Ymadael â Gofal ac sy'n bwriadu mynd ymlaen i addysg uwch. Roedd y Grant i Fyfyrwyr sydd wedi Ymadael â Gofal yn ddarpariaeth ddiangen bron, oherwydd nid oedd y rhai a oedd â hawl i gymorth o dan y Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) wedyn â hawl i'r Grant i Fyfyrwyr sydd wedi ymadael â Gofal
    - Trafodir y rheolau mewn perthynas â hawl myfyriwr sy'n ffoadur neu berson â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros yma, gyda'r Swyddfa Gartref. Mae Atodlen 1 o'r rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer aelodau teulu ffoaduriaid.

Penderfyniad y Pwyllgor

9. Ni chynigiwyd unrhyw welliannau ac roedd y Pwyllgor yn argymell cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.



Peter Black AC
Cadeirydd y Pwyllgor